



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Isadeiledd Cynhyrchu Trydan Nwy Naturiol (EN-2)



© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn: enquiries@beis.gov.uk

Cynnwys

Cynnwys	3
1 Cyflwyniad	4
1.1 Cefndir	4
1.2 Rôl yr NPS hwn yn y system gynllunio ehangach	4
1.3 Perthynas gydag EN-1	5
1.4 Cwmpas daearyddol	5
1.5 Cyfnod dilysrwydd ac adolygiad	6
1.6 Seilwaith sydd wedi ei gynnwys dan yr NPS hwn	6
1.7 Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	7
2 Asesiad a gwybodaeth benodol i dechnoleg	10
2.1 Cyflwyniad	10
2.2 Ffactorau sy'n effeithio ar dethol safleoedd gan ddatblygwyr	10
2.3 Meini prawf polisi'r Llywodraeth ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol	12
2.4 Effeithiau gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol	14
2.5 Ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr	15
2.6 Tirwedd a gweledol	16
2.7 Sŵn a dirgryniad	18
2.8 Ansawdd ac adnoddau dŵr	19
3 Geirfa	20

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

- 1.1.1 Bydd yr angen am drydan a gynhyrchir o nwy naturiol heb ei drin yn parhau ystod y newid i economi sero net yn 2050, ac o bosibl y tu hwnt, wrth inni ddatblygu a defnyddio'r dewisiadau amgen carbon isel a all efelychu ei rôl yn y system drydan, gan sicrhau bod y system yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy.
- 1.1.2 Fel y nodwyd yn EN-1, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu seilwaith hydrogen carbon isel a Dal a Storio Carbon, a bydd y ddau ohonynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni ymrwymiad rhwymol gyfreithiol y Deyrnas Unedig i gyflawni net sero erbyn 2050.
- 1.1.3 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) yma, ar y cyd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1), yn darparu'r prif bolisi ar gyfer penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar geisiadau a dderbynia ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol o arwyddocâd cenedlaethol fel y'u diffinnir yn Adran 1.6. Sefydli'r modd mae'r Datganiadau Polisi yn tywys penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a'r materion y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried dan Ddeddf Cynllunio 2008 wrth edrych ar geisiadau yn Adrannau 1.1 a 4.1 EN-1.
- 1.1.4 Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu ceisiadau, ac unrhyw ddogfennau a gwybodaeth ategol, yn gyson gyda'r cyfarwyddiadau a chanllawiau a roddir i ymgeiswyr yn yr NPS hwn, EN-1 ac unrhyw Ddatganiadau eraill sy'n berthnasol i'r cais dan sylw.
- 1.1.5 Gall yr NPS hwn, ac yn benodol y polisi a'r canllawiau ar effeithiau generig yn Rhan 5 EN-1, fod o gymorth i awdurdodau cynllunio lleol (LPAs) wrth baratoi eu hadroddiadau effaith lleol.

1.2 Rôl yr NPS hwn yn y system gynllunio ehangach

- 1.2.1 Yng Nghymru a Lloegr, gallai'r NPS yma fod yn ystyriaeth faterol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau sydd dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd). Bydd p'un a yw'r NPS hwn, ac i ba raddau, yn ystyriaeth berthnasol, yn cael ei farnu fesul achos a bydd yn dibynnu i ba raddau y mae'r materion eisoes yn dod o dan y polisi cynllunio cymwys.
- 1.2.2 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd dderbyn ceisiadau am amrywiadau i ganiatadau presennol ar gyfer seilwaith ynni o dan adran 36C Deddf Trydan 1989, ble gallai'r NPS hwn fod yn ystyriaeth berthnasol.

- 1.2.3 Mae paragraffau 1.2.3 a 4.4 o EN-1 yn rhoi manylion sut y gall yr NPS hwn fod yn berthnasol i benderfyniadau'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a sut y gall y Datganiad Polisi Morol (MPS) ac unrhyw gynllun morol cymwys fod yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud penderfyniadau.

1.3 Perthynas gydag EN-1

- 1.3.1 Mae'r NPS hwn yn rhan o gyfres o Ddatganiadau seilwaith ynni. Dylid ei ddarllen ar y cyd ag EN-1 sy'n cwmpasu:

- yr amcanion lefel uchel, y polisi a'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol newydd sy'n dod o dan y gyfres o NPSs ynni ac unrhyw ddatblygiad cysylltiedig (y cyfeirir ato fel NSIPs ynni)
- yr angen a'r brys i gydsynio ac adeiladu seilwaith ynni newydd. gyda'r amcan o sicrhau bod ein cyflenwad ynni yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ar bob adeg, ac yn gyson ag allyriadau net sero yn 2050 ar gyfer ystod eang o senarios yn y dyfodol, gan gynnwys trwy gyflawni ein cyllidebau carbon a'n Cyfraniadau wedi'u Cadarnhau'n Genedlaethol (NDC), a chefnogi'r polisïau'r Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, yn benodol trwy liniaru ac addasu i newid hinsawdd
- yr angen am dechnolegau penodol, gan gynnwys y seilwaith a gwmpesir gan yr NPS hwn
- egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth archwilio a phenderfynu ar gymwysiadau
- rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd mewn perthynas â'r gyfres o Ddatganiadau Polisi seilwaith ynni
- polisi ar ddylunio da, addasu i newid yn yr hinsawdd a materion eraill sy'n berthnasol i fwy nag un NPS technoleg-benodol
- asesu a thrin effeithiau generig nad ydynt yn benodol i dechnolegau penodol

- 1.3.2 Nid yw'r NPS hwn yn ceisio ailadrodd y deunydd a nodwyd yn EN-1, sy'n berthnasol i bob cais a gwmpesir gan yr NPS hwn oni nodir yn wahanol. Rhoddir y rhesymau dros bolisi sy'n benodol i'r seilwaith ynni a gwmpesir gan yr NPS hwn, ond lle mae EN-1 yn nodi'r rhesymau dros bolisi cyffredinol ni chaiff y rhain eu hailadrodd.

1.4 Cwmpas daearyddol

- 1.4.1 Gwneir yr NPS hwn o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac mae'n berthnasol i bob NSIP cynhyrchu sy'n rhedeg ar nwy naturiol, sydd yn Lloegr yn cynnwys gorsafoedd cynhyrchu sydd â chynhwysedd cynhyrchu dros 50MW ac yng Nghymru mae'n gyfyngedig i orsafoedd cynhyrchu nwy naturiol sydd â chynhwysedd cynhyrchu dros

350MW. Yn Lloegr bydd hefyd yn berthnasol i gynigion cynhyrchu nwy naturiol y cyfeirir atynt yn y gyfundrefn NSIP dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008.

- 1.4.2 Yn yr Alban, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn archwilio ceisiadau am orsafoedd cynhyrchu o arwyddocâd cenedlaethol. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae polisi ynni yn fater a neilltuwyd i Weinidogion y Deyrnas Unedig ac felly gall yr NPS hwn fod yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn yr Alban.
- 1.4.3 Yng Ngogledd Iwerddon, mae cydsyniadau polisi a chynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith ynni wedi'u datganoli i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, felly ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn archwilio ceisiadau am seilwaith ynni yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 Cyfnod dilysrwydd ac adolygiad

- 1.5.1 Bydd yr NPS hwn yn parhau mewn grym yn ei gyfanrwydd oni bai ei fod wedi'i dynnu'n ôl neu ei atal yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yn cael ei adolygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Nodir gwybodaeth am y broses adolygu ym mharagraffau 10 i 12 o'r Atodiad i lythyr CLG ar 9 Tachwedd 2009¹ a chanllawiau MHCLG ar Adolygu NPSs.²
- 1.5.2 Am ddarpariaethau trosiannol yn dilyn adolygiad, paragraff 1.6 EN-1.

1.6 Seilwaith sydd wedi ei gynnwys dan yr NPS hwn

- 1.6.1 Mae'r NPS hwn yn cynnwys seilwaith cynhyrchu trydan ar y tir sy'n rhedeg ar nwy naturiol gyda chapasiti cynhyrchu trydan dros 50MW yn Lloegr a chapasiti cynhyrchu trydan dros 350MW yng Nghymru. Yn Lloegr bydd hefyd yn ymdrin ag unrhyw gynigion cynhyrchu nwy naturiol sy'n cael eu cyfeirio i'r gyfundrefn NSIP o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008.
- 1.6.2 Mae gorsafoedd cynhyrchu biomas wedi'u cynnwys yn yr NPS Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3).
- 1.6.3 Gellir ffurfweddu gorsafoedd cynhyrchu sy'n rhedeg ar nwy naturiol i gynhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) a Pharodrwydd i Ddal Carbon (CCR) a / neu fod technoleg

1 <https://www.gov.uk/guidance/planning-guidance-letters-to-chief-planning-officers>

2 <https://www.gov.uk/guidance/planning-act-2008-guidance-on-the-process-for-carrying-out-a-review-of-existing-national-policy-statements>

Dal a Storio Carbon (CCS) eisoes ar waith. Mae manylion polisi'r Llywodraeth yn y meysydd hyn wedi'u nodi yn EN-1 gyda gwybodaeth bellach yn yr NPS hwn.

- 1.6.4 Bydd angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar seilwaith cynhyrchu trydan yn defnyddio nwy hydrogen dros gapasiti cynhyrchu trydan 50MW yn Lloegr a dros gapasiti cynhyrchu trydan 350MW yng Nghymru ac EN-1. Mae'r canllawiau sy'n dilyn yn yr NPS hwn wedi'i drafftio mewn perthynas â seilwaith cynhyrchu trydan o nwy naturiol ond gallai hefyd fod yn bwysig ac yn berthnasol i seilwaith cynhyrchu trydan o nwy hydrogen.

1.7 Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 1.7.1 Mae'r holl NPSs ynni wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS), fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Arfarniadau hefyd yn ymgorffori'r dadansoddiad o'r effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) (Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni) 2004.
- 1.7.2 Esbonnir dibenion a dulliau'r Arfarniadau yn nrafft yr AoS ar gyfer EN-1 (AoS-1) a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Eu prif swyddogaeth yw llywio ymgynghoriad ar y Datganiadau Polisi drafft trwy ddarparu dadansoddiad o effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gweithredu'r Datganiadau Polisi ynni. Mae'r canfyddiadau allweddol o AoS-1 wedi'u cynnwys yn EN-1
- 1.7.3 Yn ychwanegol at yr effeithiau generig hynny a nodwyd trwy'r AoS ac a adroddwyd yn AoS-1, nodwyd nifer o effeithiau penodol yn ymwneud ag EN-2, oherwydd y math o dechnoleg a hyrwyddir o dan yr NPS hwn.

Asesiad AoS o EN-2

- 1.7.4 Pwyntiau allweddol o'r AoS ar gyfer EN-2 (AoS-2) yw:
- Mae datblygiad seilwaith cynhyrchu nwy naturiol yn cael effeithiau tebyg i fathau eraill o seilwaith ynni, sy'n deillio o effeithiau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau mawr ar safleoedd sengl; yn ogystal â'r rhai sy'n gysylltiedig â nodweddion llinellol sy'n gysylltiedig â datblygiad posibl seilwaith CCS. Felly, ar gyfer mwyafrif amcanion yr AoS, ystyrir bod effeithiau strategol EN-2 yn cyfateb i'r rhai a nodwyd yn AoS-1.
 - Fodd bynnag, yn gysylltiedig â manylion ychwanegol a ddarparwyd am y Technolegau yn EN-2, ystyriwyd effeithiau nad ydynt yn generig ar gyfer pedwar amcan AoS (Allyriadau Carbon, Bioamrywiaeth, Amgylchedd Dŵr ac Ansawdd Aer). Gwelwyd bod yr effeithiau nad ydynt yn generig yn negyddol ar draws y tymor byr, canolig a hir ar gyfer pob un o'r pedwar Amcan AoS sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu a gweithredu seilwaith cynhyrchu nwy naturiol.

- Mae cysondeb â'r targed cenedlaethol o leihau allyriadau carbon i net sero erbyn 2050 hefyd yn cael ei ystyried yn negyddol yn y tymor hir, gan adlewyrchu'r allyriadau gweddilliol o weithfeydd nwy naturiol heb ei drin, oni bai eu bod yn cael eu cydbwysu gan allyriadau negyddol.
- Yn y tymor hir, yn dilyn datgomisiynu, gan y byddai gollyngiadau ac allyriadau i'r aer a'r dŵr yn dod i ben, byddai'r effaith yn niwtral i'r Amgylchedd Dŵr ac Ansawdd Aer.
- Mae'n bwysig nodi bod ansicrwydd ynghylch effeithiau gwirioneddol gan y byddai hyn yn dibynnu ar leoliad a sensitifrwydd yr amgylchedd derbyn.

1.7.5 Mae EN-1 (wedi'i lywio gan AoS-1) yn cynnwys lliniaru helaeth i sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu hystyried gan ymgeiswyr a'r Arolygiaeth Gynllunio wrth baratoi a phenderfynu ar geisiadau. Mae EN-2 (wedi'i lywio gan AoS-2) yn cynnwys ystod o fesurau lliniaru technoleg-benodol, ynghyd â'r rhai a gynigir yn EN-1, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ystod o effeithiau negyddol a nodwyd.

Asesiadau o ddewisiadau amgen i EN-2

1.7.6 Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau SEA, cynhaliwyd asesiad o ddewisiadau amgen rhesymol hefyd mewn perthynas ag EN-2. Y ddau ddewis arall a aseswyd yn erbyn EN-2 oedd:

Cynllunio	Trosolwg
EN-2	Mae EN-2 yn cwmpasu seilwaith cynhyrchu trydan sy'n rhedeg ar nwy naturiol gyda capasiti cynhyrchu trydan dros 50 MW yn Lloegr a capasiti cynhyrchu trydan dros 350 MW yng Nghymru. Mae EN-1 yn darparu mai dim ond i orsafoedd cynhyrchu hylosgi newydd ac adnewyddadwy sydd â chynhwysedd cynhyrchu ar neu dros 300 MW sy'n CCR y rhoddir caniatâd. O ganlyniad, bydd EN-2 yn cydsynio seilwaith cynhyrchu trydan sy'n rhedeg ar nwy naturiol dros 50 MW yn Lloegr nad yw'n CCR, gyda'r gofynion CCR yn berthnasol ar neu dros 300MW yn unig.
Dewis arall (a)	Dim ond cydsynio gwaith nwy carbon isel (h.y. nwy naturiol gyda CCS neu danwydd hydrogen)
Dewis arall (b)	Dim ond cydsynio gwaith cynhyrchu nwy naturiol all ddangos eu bod yn gallu trosi i ddewisiadau amgen carbon isel yn y dyfodol

1.7.7 Y gwahaniaethau allweddol rhwng dewis (a) ac EN-2 yw:

- yr faterol yr un mor fuddiol ar gyfer cyflawni Net Sero oherwydd nad oes unrhyw allyriadau o nwy heb ei drin

- yn faterol niweidiol ar Ddiogelwch Cyflenwad gan yn ddibynol ar dechnolegau sy'n dal i gael eu datblygu fel Hydrogen a Storio Ynni ar raddfa i sicrhau'r cyflenwad brig a chynnal sefydlogrwydd a diogelwch y system drydan

1.7.8 Y gwahaniaethau allweddol rhwng dewis (b) ac EN-2 yw:

- buddiol ar gyfer cyflawni Net Sero trwy sicrhau nad oes unrhyw waith nwy heb ei drin newydd yn cael ei 'gloi i mewn' heb y gallu i drosi i ddewisiadau amgen carbon isel pan yn barod.
- yn niweidiol ar Ddiogelwch Cyflenwad, oherwydd er y byddai'n llai tebygol o ddibynnu (na dewis arall (a)) ar dechnolegau sydd wedi'u profi'n llawn eto fel Hydrogen a Storio Ynni ar raddfa, efallai y bydd angen iddynt sicrhau'r cyflenwad brig a chynnal sefydlogrwydd a diogelwch y system drydan o hyd.

1.7.9 Cydnabyddir y gallai dewis arall (b) gyflwyno dewis amgen mwy cynaliadwy na'r polisiâu a nodir yn EN-1 ac EN-2, pe bai'n cael ei weithredu mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith bosibl ar ddiogelwch cyflenwad. Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn Ynni, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ymgynghori ar gynigion i ddiweddarau'r gofynion Parodrwydd i Ddal Carbon i adlewyrchu datblygiadau technolegol, megis trosi i hydrogen carbon isel a'u cymhwyso'n ehangach, trwy gael gwared ar y Trothwy 300MW ac yn cynnwys yr holl dechnolegau hylosgi o fewn y cwmpas. Os yw'r ymgynghoriad hwnnw'n arwain at newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol neu bolisi perthnasol yna bydd y gofynion newydd hynny yn berthnasol a bydd yr NPS hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw ofynion diwygiedig cyn dynodi

Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

1.7.10 Mae Asesiadau Rheoleiddio Cynefinoedd (HRA) hefyd wedi'u cynnal a'u cyhoeddi ar gyfer y Datganiadau Polisi EN-1 i EN-5 nad ydynt yn benodol i leoliad. Gan nad yw EN-1 i EN-5 yn nodi lleoliadau ar gyfer seilwaith ynni, mae'r HRA yn drosolwg strategol lefel uchel. Er bod y diffyg gwybodaeth ofodol yn EN-1 i EN-5 yn ei gwneud yn amhosibl dod i sicrwydd ar effaith y cynllun ar gyfanrwydd unrhyw Safle HRA, ni ellir diystyru'r potensial i brosiectau seilwaith ynni arfaethedig o'r math a ystyrir gan EN-1 i EN-5 gael effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd o'r fath, gan ddilyn yr egwyddor ragofalus. Mae'r HRA yn esbonio pam fod y llywodraeth o'r farn y gellir cyfiawnhau EN-1 i EN-5, serch hynny, oherwydd rhesymau hanfodol sy'n drech na budd y cyhoedd, wrth nodi bod ei gasgliadau'n berthnasol ar lefel yr NPS yn unig ac nad ydynt yn rhagfarnu unrhyw HRA ar lefel prosiect, a allai arwain at wrthod caniatâd ar gyfer cais penodol.

2 Aseiad a gwybodaeth benodol i dechnoleg

2.1 Cyflwyniad

- 2.1.1 Mae Rhan 4 EN-1 yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y dylid eu defnyddio wrth asesu ceisiadau caniatâd datblygu ar draws yr ystod o dechnolegau ynni. Mae Rhan 5 nodi polisi ar asesu effeithiau sy'n gyffredin ar draws nifer o'r technolegau hyn (effeithiau 'generig'). Mae'r NPS hwn yn ymwneud ag effeithiau a materion eraill sy'n gysylltiedig yn benodol i orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol, neu ble mae'r effaith yn generig ac wedi'i gwmpasu yn EN-1, mae ystyriaethau penodol pellach yn codi o'r dechnoleg hon.
- 2.1.2 Mae'r polisiâu a nodir yn yr NPS hwn yn ychwanegol at y rhai ar effeithiau generig a nodir yn EN-1 ac nid ydynt yn eu disodli. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr NPS yma ac EN-1 gyda'i gilydd. Yn benodol, mae EN-1 yn nodi casgliad y llywodraeth bod angen sylweddol am seilwaith ynni mawr newydd (gweler y crynodeb a'r casgliad yn Rhan 3 o EN-1). Mae Adran 3.3 EN-1 yn cynnwys aseidiadau o'r angen am seilwaith cynhyrchu nwy naturiol newydd arwyddocaol yn genedlaethol. Yng ngoleuni hyn, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu ar y sail bod yr angen am y seilwaith a gwmpesir gan yr NPS hwn wedi'i ddangos.

2.2 Ffactorau sy'n effeithio ar dethol safleoedd gan ddatblygwyr

- 2.2.1 Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis safleoedd gan ymgeiswyr am NSIPs nwy naturiol wedi'u nodi isod. Nid yw'r rhain yn ddatganiad o bolisi'r llywodraeth ond fe'u cynhwysir i roi gwybodaeth gefndir i'r Ysgrifennydd Gwladol ac eraill am y meini prawf y mae ymgeiswyr yn eu hystyried wrth ddewis safle. Bydd y meini prawf penodol a ystyrir gan ymgeiswyr, a'r pwysau a roddant iddynt, yn amrywio o un prosiect i'r llall. Mae'r dewisiadau y mae cwmnïau ynni yn eu gwneud wrth ddewis safleoedd yn adlewyrchu eu hasesiad o'r risg na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn y pwyntiau cyffredinol a nodir yn Adran 4.1 EN-1, yn rhoi caniatâd mewn unrhyw achos penodol. Ond mater i gwmnïau ynni yw penderfynu pa geisiadau i'w cyflwyno ac nid yw'r llywodraeth yn ceisio cyfeirio ymgeiswyr i safleoedd penodol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol.

Defnydd Tir

- 2.2.2 Mae gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol yn gadael olion traed mawr ar y tir ac felly dim ond pan fydd yr ymgeisydd yn gallu caffael safle o faint addas y bydd yn bosibl. Bydd

angen i'r safle hefyd fod yn ddigon mawr i gydymffurfio â pholisi'r llywodraeth ar CCR, Parodwydd Datgarboneiddio (DR) a CCS, a nodir yn Adran 4.8 EN-1 ac yn Adran 2.3 isod.

- 2.2.3 Yn dibynnu ar y prosesau a fabwysiedir, efallai y bydd CCR, CCS a mesurau lliniaru ar gyfer allyriadau gan orsafoedd cynhyrchu nwy naturiol yn gofyn am storio a defnyddio cemegolion peryglus a reoleiddir o dan y Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015, a allai gael effaith ar ddefnydd tir posibl yn y cyffiniau. Gall hyn yn ei dro effeithio ar ddewis yr ymgeisydd o safle.
- 2.2.4 Gall datblygu gorsaf gynhyrchu CHP hefyd gael effaith ar faint y safle sy'n ofynnol a'r defnydd tir. Nodir manylion effeithiau defnydd tir yn Adran 5.11 EN-1.

Seilwaith Trafnidiaeth

- 2.2.5 Mae angen i orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol newydd fod yn hygyrch ar gyfer dosbarthu a symud deunyddiau adeiladu, tanwydd, gwastraff ac offer, ac ar gyfer gweithwyr.
- 2.2.6 Mae polisi'r llywodraeth yn annog cludiant aml-foddol a gellir cludo deunyddiau (tanwydd a gweddillion) ar lwybrau dŵr neu reilffordd lle bo hynny'n bosibl. (Gweler Adran 5.14 EN-1 ar effeithiau trafndiaeth). Dylai ymgeiswyr leoli gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol newydd yng nghyffiniau'r llwybrau trafndiaeth presennol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Er y gallai fod manteision amgylcheddol i gludiant rheilffordd neu ddŵr mewn rhai achosion, mae economeg y cynllun yn debygol o benderfynu a yw dulliau o'r fath yn hyfyw ai peidio. Efallai y bydd angen cludiant ffordd i gysylltu'r safle â'r rhwydwaith reilffyrdd, dyfrffordd neu borthladd. Dylai unrhyw gais felly gynnwys mynediad addas sy'n arwain i ffwrdd o'r prif rwydwaith priffyrdd. Os yw'r mynediad presennol yn annigonol a bod yr ymgeisydd wedi cynnig seilwaith newydd, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fodloni ei hun bod effeithiau'r seilwaith newydd yn dderbyniol fel y nodir yn Adran 5.14 EN-1.

Adnoddau Dŵr

- 2.2.7 Mae gan rai gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol ofynion dŵr uchel iawn, er enghraifft gorsafoedd cynhyrchu tyrbinau nwy cylch cyfun (CCGT). Ychydig o alw am ddŵr sydd gan dechnolegau eraill, er enghraifft tyrbinau nwy cylch agored a pheiriannau cilyddol.
- 2.2.8 Mewn gorsafoedd cynhyrchu CCGT, mae angen dŵr wedi'i buro i gynhyrchu'r stêm i yrru'r tyrbinau cynhyrchu ac mae angen cyfeintiau mawr ychwanegol o ddŵr i gyddwyso'r stêm hwn yn ôl i ddŵr i'w aildefnyddio. Bydd angen cyflenwad dŵr ar gyfer prosesau CCS fel y nodir yn adran 4.8 EN-1. Bydd faint o dynnu dŵr sydd ei angen ac a oes angen ei ollwng yn dibynnu ar ddewis technoleg yr ymgeisydd, yn enwedig y system oeri, yn y dyluniad arfaethedig. Bydd y cyfeintiau sy'n ofynnol ac argaeledd yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys:

- maint yr adnodd dŵr
- y gyfradd llif debygol o fewn corff dŵr
- cynlluniau rheoli cwmnïau cyflenwi dŵr
- effaith weledol y system a ddewisir
- defnydd pŵer y system oeri
- maint y gwaith.

2.2.9 Bydd galwadau dŵr uchel yn golygu bod y safleoedd a ffefrir gan ddatblygwyr yn debygol o fod yn arfordirol, wrth ymyl aberoedd neu wrth ymyl afonydd mawr. Os nad oes digon o ddŵr o ffynonellau naturiol ar gael ar safle yna efallai y bydd angen rhywfaint o ddefnydd o brif gyflenwadau, er y dylid nodi nad oes dyletswydd ar gwmni dŵr i gyflenwi dŵr. Os nad oes cyflenwad digonol o ddŵr ar gael, byddai angen dull arall o oeri fel cyddwysyddion aer-oeri. Disgrifir rheoleiddio tynnu a gollwng dŵr yn Adran 5.16 EN-1. Dylai'r ymgeisydd fod wedi ymchwilio i argaeledd cyflenwad o'r fath yn gynnar. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd amgen a gynigir yn ystod y broses ymgeisio ddangos y byddai cyflenwad digonol o ddŵr ar gael.

Cyswllt i'r Grid

- 2.2.10 Mae gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol yn cysylltu naill ai â'r rhwydweithiau trawsyrru neu ddosbarthu. Mae dichonoldeb technegol allforio trydan o orsaf gynhyrchu yn dibynnu ar allu'r rhwydwaith grid i dderbyn yr allbwn trydan tebygol ynghyd â foltedd a phellter y cysylltiad.
- 2.2.11 Fel rheol, bydd ymgeiswyr wedi sicrhau eu hunain bod cysylltiad hyfyw yn bodoli cyn cyflwyno'r cynnig datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol a, lle nad ydynt wedi gwneud hynny, maent yn cymryd y risg fasnachol honno. Hyd yn oed os na nodwyd union lwybr cysylltiad, yn unol ag Adran 4.10 yn EN-1 rhaid i unrhyw gais i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnwys gwybodaeth ar sut y dylid cysylltu'r orsaf gynhyrchu ac a oes unrhyw faterion amgylcheddol penodol yn debygol o godi o'r cysylltiad hwnnw. Mae cyngor pellach ar y berthynas â chymwysiadau grid yn EN-1 a'r NPS ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5).

2.3 Meini prawf polisi'r Llywodraeth ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol

- 2.3.1 Rhaid cwrdd â'r meini prawf canlynol cyn y gellir rhoi caniatâd ar gyfer gorsaf cynhyrchu tanwydd ffosil newydd.

Gwres a Phŵer Cyfunedig

- 2.3.2 Disgrifir strategaeth y llywodraeth ar gyfer CHP yn Adran 4.7 EN-1, sy'n nodi'r gofynion ar ymgeiswyr naill ai i gynnwys CHP neu gyflwyno tystiolaeth yn y cais bod y posibiladau ar gyfer CHP wedi'u harchwilio'n llawn.
- 2.3.3 O ystyried y pwysigrwydd y mae'r llywodraeth yn ei roi i CHP, am y rhesymau a nodir yn EN-1, os nad yw cais yn dangos bod CHP wedi'i ystyried dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd. Ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth briodol bod CHP wedi'i gynnwys neu fod y cyfleoedd ar gyfer CHP wedi'u harchwilio'n llawn. Ar gyfer gorsafoedd nad ydynt yn CHP, lle mae lle i gredu y gallai cyfleoedd i gyflenwi gwres trwy CHP godi yn y dyfodol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr sicrhau bod eu gorsafoedd yn 'barod ar gyfer CHP' a'u bod wedi'u cynllunio er mwyn caniatáu gwres cyflenwad yn ddiweddarach, fel y disgrifir yn Adran 4.7 EN-1 a'r canllawiau ar CHP a gyhoeddwyd gan BEIS³

Parodrwydd i Ddal Carbon⁴

- 2.3.4 Mae polisi a meini prawf y llywodraeth ar gyfer CCR ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu hylosgi newydd ac adnewyddadwy sydd â chapasiti cynhyrchu 300MW neu fwy wedi'u nodi yn Adran 4.8 EN-1. Os nad yw cais yn dangos bod CCR wedi'i asesu yn unol â'r polisi hwn, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd. Ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu oni bai ei fod yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn cwrdd â'r holl feini prawf ar gyfer CCR a nodir yn EN-1, a'i fod, felly, yn CCR.
- 2.3.5 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol osod gofynion ar unrhyw gydsyniad datblygu, gan ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr:
- gadw rheolaeth dros ddigon o le ychwanegol (p'un ai ar y safle neu'n agos ato) ar gyfer yr offer dal carbon
 - gadw eu gallu i adeiladu offer dal carbon ar y gofod hwn (p'un ai ar neu ger y safle) yn y dyfodol
 - cyflwyno adroddiadau diweddarau ar agweddau technegol ei statws CCR i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dylai'r adroddiadau hyn fod yn ofynnol cyn pen tri mis o'r dyddiad y bydd gorsaf gydsyniedig yn dechrau cyflenwi trydan i'r grid am y tro cyntaf a phob dwy flynedd wedi hynny nes bod y ffatri'n symud i CCS ôl-ffitio

³ <https://www.gov.uk/guidance/combined-heat-and-power>

⁴ Mae'r Papur Gwyn Ynni, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn ymrwmo i ymgynghori ar gynigion i ddiweddarau'r gofynion Parodrwydd i Ddal Carbon i adlewyrchu datblygiadau technolegol, megis trosi i hydrogen carbon isel a'u cymhwyso'n ehangach, trwy gael gwared ar y Trothwy 300MW. Os yw'r ymgynghoriad hwnnw'n arwain at newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol neu bolisi perthnasol yna bydd y gofynion newydd hynny yn berthnasol a bydd yr NPS hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw ofynion diwygiedig cyn dynodi. Yn y cyfamser, mae polisi CCR yn parhau fel y nodir yn yr adran hon.

Addasu i newid yn yr hinsawdd

2.3.6 Mae Rhan 2 EN-1 yn cynnwys a strategaeth ynni a newid yn yr hinsawdd y llywodraeth, gan gynnwys polisiâu ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd. Mae Adran 4.9 EN-1 yn nodi ystyriaethau generig y dylai ymgeiswyr a'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried i helpu i sicrhau bod seilwaith cynhyrchu nwy naturiol yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Ers 2011, mae yna ofynion Risg ac Addasu i Newid Hinsawdd ynghlwm wrth drwyddedau amgylcheddol. Gan fod gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol yn debygol o gael eu cynnig ar gyfer safleoedd arfordirol neu forydol neu afonydd mewndirol ac mae newid yn yr hinsawdd yn debygol, er enghraifft, o gynyddu'r risg o lifogydd neu lefelau'r môr yn codi, dylai ymgeiswyr nodi'n benodol sut y byddai'r cynnig yn gallu gwrthsefyll:

- newidiadau arfordirol a risg cynyddol o ymchwydd stormydd
- effeithiau tymereddau uwch, gan gynnwys tymereddau uwch dŵr oeri
- risg uwch o sychder gan arwain at ddiffyg dŵr oeri ar gael

2.3.7 Mae Adran 4.9 EN-1 yn cynghori y dylid asesu gwytnwch y prosiect i newid yn yr hinsawdd yn y DA sy'n cyd-fynd â chais. Er enghraifft, dylid cynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ddŵr oeri o ganlyniad i dymheredd uwch yn yr adran asesu effaith ar ansawdd ac adnoddau dŵr.

Ystyriaeth o 'dyluniad da' ar gyfer seilwaith ynni

2.3.8 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried, wrth ddynodi NPS, pa mor ddymunol yw dyluniad da. Mae adran 4.6 EN-1 yn nodi'r meini prawf ar gyfer dyluniad da y dylid eu cymhwyso i'r holl seilwaith ynni.

2.3.9 Dylai ymgeiswyr ddangos dyluniad da yn enwedig o ran tirwedd ac amwynder gweledol fel y nodir yn Adran 2.6 isod, ac wrth ddylunio'r prosiect i lliniaru effeithiau megis sŵn a dirgryniad, effeithiau trafndiaeth ac allyriadau aer.

2.4 Effeithiau gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol

Cyflwyniad

2.4.1 Mae Rhan 5 EN-1 yn cynnwys polisi i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth asesu effeithiau posibl prosiectau seilwaith ynni (a nodwyd fel 'effeithiau generig'). Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo dehongli adrannau effaith yr holl NPSs ynni (gweler Adran 5.1). Wrth ystyried effeithiau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol, mae'r holl effeithiau generig a gwmpesir yn EN-1 yn debygol o fod yn berthnasol. Mae gan yr NPS bolisi ychwanegol ar:

- Allyriadau aer
- Tirwedd ac effeithiau gweledol

- Sŵn a dirgryniad
- Ansawdd ac adnoddau dŵr

2.4.2 Ni fwriedir i'r effeithiau a nodwyd yn Rhan 5 EN-1 a'r NPS hwn fod yn gynhwysfawr. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr asesu holl effeithiau sylweddol tebygol eu cynigion (gweler Adran 4.2 EN-1) ac felly dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried unrhyw effeithiau y mae'n penderfynu sy'n berthnasol ac yn bwysig i'w benderfyniad.

2.5 Ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr

Cyflwyniad

- 2.5.1 Ymdrinnir yn fanwl ag effeithiau allyriadau aer generig heblaw CO₂ yn EN-1. Yn ogystal, mae yna ystyriaethau penodol sy'n berthnasol i orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol fel y nodir isod.
- 2.5.2 Mae allyriadau CO₂ gweithredol yn effaith andwyol sylweddol ar orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol. Er y bydd asesiad carbon yn cael ei ddarparu fel rhan o'r DA, bydd y polisïau a nodir yn Rhan 2 EN-1 yn berthnasol. Fel y nodir yn adran 5.3 EN-1, felly nid oes angen i'r Ysgrifennydd Gwladol asesu ceisiadau unigol am gydsyniad cynllunio yn erbyn allyriadau carbon gweithredol a'u cyfraniad at gyllidebau carbon, net sero a'n hymrwymiaadau hinsawdd rhyngwladol.
- 2.5.3 Mae gorsafoedd cynhyrchu nwy naturiol yn debygol o ryddhau ocsidau nitrogen (NO_x). Er mwyn cwrdd â gofynion deddfwriaeth Defra ar allyriadau diwydiannol⁵, rhaid i orsafoedd cynhyrchu nwy naturiol gymhwyso nifer o fesurau lliniaru i leihau NO_x ac allyriadau eraill.
- 2.5.4 Mae'r allyriadau hyn yn cael eu rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) trwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gael Trwydded Amgylcheddol (EP) cyn dechrau gweithredu gorsaf cynhyrchu nwy naturiol newydd. Nodir manylion y drefn EP yn EN-1, Adran 4.11.

Asesiad yr ymgeisydd

- 2.5.5 Dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad fel sy'n ofynnol yn EN-1, gan ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, CNC ac awdurdodau statudol eraill ar gamau cychwynnol datblygu eu cynigion, fel y nodir yn EN-1 Adran 4.2. Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am farn gwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn cyflwyno cais, dylid gwneud unrhyw farn a dderbynnir gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn hysbys i'r Ysgrifennydd Gwladol fel y gallant ystyried cyngor yr Asiantaeth ar allyriadau posibl.

⁵ <https://www.gov.uk/guidance/industrial-emissions-standards-and-best-available-techniques>

Lliniaru

- 2.5.6 Bydd lliniaru yn dibynnu ar fath a dyluniad gorsaf gynhyrchu. Fodd bynnag, bydd Gostyngiad Catalytig Dewisol (SCR) – sy'n lleihau NOx trwy chwistrellu adweithydd addas i nwy fflw dros gatalydd – yn cael effeithiau andwyol ychwanegol ar sŵn a dirgryniad, rhyddhau llwch a thrafod deunyddiau a allai fod yn beryglus, er enghraifft yr amonia a ddefnyddir fel ymweithredydd.
- 2.5.7 Yn unol ag Adran 5.2 EN-1 dylai'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC, fod yn fodlon bod unrhyw effeithiau andwyol ar fesurau lliniaru ar gyfer allyriadau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd wedi'u disgrifio yn y DA a'u hystyried yn yr asesiadau.

Gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 2.5.8 Wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol sy'n deillio o allyriadau aer ac, yn achos NOx neu ronynnau yn benodol, ei fod yn dilyn y cyngor yn EN-1 ar ryngweithio â phrosesau rheoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC.

2.6 Tirwedd a gweledol

Cyflwyniad

- 2.6.1 Ymdrinnir yn fanwl ag effeithiau tirwedd a gweledol generig yn EN-1, Adran 5.10. Wrth ystyried effeithiau tirwedd a gweledol, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw arbennig i'r effeithiau ar Barciau Cenedlaethol, y Llynnoedd a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fel y nodir yn EN-1. Yn ogystal â'r effeithiau a ddisgrifir yn EN-1, mae yna ystyriaethau penodol sy'n berthnasol i orsafoedd cynhyrchu nwy naturiol fel y nodir isod.
- 2.6.2 Mae'r prif strwythurau ar gyfer gorsaf cynhyrchu nwy naturiol, gan gynnwys y neuaddau tyrbin a boeler, simneiau nwy gwacáu, cyfleusterau storio, tyrau oeri, a gwaith prosesu dŵr, yn fawr. Byddant yn cael effaith ar y dirwedd o amgylch a'r amwynder gweledol. Mae'n anochel y bydd maint cyffredinol y datblygiad yn dibynnu ar dechnoleg a dyluniad. Bydd goleuadau yn ystod y nos ar gyfer gweithrediad parhaus hefyd yn cael effaith ar amwynder gweledol.

Asesiad yr ymgeisydd

- 2.6.3 Dylai'r ymgeisydd gynnwys asesiad effaith tirwedd a gweledol fel rhan o'r DA, fel y nodir yn Adran 5.10 EN-1.
- 2.6.4 Dylai'r ymgeisydd hefyd ystyried dyluniad y gwaith, gan gynnwys y deunyddiau i'w defnyddio, ac effaith weledol y simdde, fel y nodir yn Adran 5.10 EN-1 yng nghydestun y dirwedd leol.

Gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 2.6.5 Nid yw'n bosibl dileu'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â gorsaf cynhyrchu trydan nwy naturiol. Lliniaru felly yw lleihau ymyrraeth weledol yr adeiladau yn y dirwedd a lleihau'r effaith ar amwynder gweledol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 2.6.6 Dylai ymgeiswyr ddylunio gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol gyda'r nod o ddarparu'r ffit orau â'r dirwedd leol bresennol er mwyn lleihau effeithiau gweledol. Gall hyn gynnwys dylunio adeiladau i leihau agweddau negyddol ar eu hymddangosiad trwy benderfyniadau mewn meysydd fel maint, gorffeniad allanol a lliw'r gwaith cyn belled ag y mae cydymffurfio â gofynion peirianeg ac amgylcheddol yn caniatáu. Bydd angen i'r union driniaeth bensaernïol fod yn benodol i safle.
- 2.6.7 Yn aml gall lleihau effeithiau gweledol olygu amgáu adeiladau ar lefel isel fel y'i gwelir o'r golygfannau allanol o'u cwmpas. Mae hyn yn gwneud graddfa'r gwaith yn llai amlwg, ac yn helpu cuddio nodweddion lefel is, llai y gwaith. Gellir defnyddio byndiau daear a thwmpathau, plannu coed, neu'r ddau i ysgafnhau'r ymyrraeth weledol a gallant hefyd helpu gwanhau sŵn o weithgareddau'r safle. Lle mae'r dirwedd bresennol yn fwy diwydiannol, gall dyluniad gynnwys mathau eraill o liniaru effaith weledol.
- 2.6.8 Fel y nodwyd yn EN-1, dylai'r ymgeisydd fod wedi cynnal asesiad tirwedd a gweledol priodol gan ddefnyddio methodolegau cydnabyddedig ac wedi cymryd mesurau i leihau effeithiau'r orsaf gynhyrchu trydan nwy naturiol ar dirwedd ac amwynder gweledol cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Wrth ystyried a yw'r mesurau a gynigir yn ddigonol i gyflawni'r amcanion hyn dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael cyngor gan yr ymgynghorwyr statudol perthnasol.
- 2.6.9 Wrth ofyn bod unrhyw addasiadau dylunio yn lleihau effeithiau andwyol, mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn ymwybodol o'r gofynion statudol a thechnegol sy'n llywio dyluniad gwaith ac efallai y bydd angen ymgorffori rhai manylion dylunio, er enghraifft uchder simnai, fel y nodir yn Adran 5.10 EN-1.
- 2.6.10 Am y rheswm a roddir ym mharagraff 2.6.5 uchod os yw'r Ysgrifennydd Gwladol, o roi sylw i'r ystyriaethau mewn perthynas ag effeithiau eraill a nodir yn EN-1 a'r NPS hwn, yn fodlon bod y lleoliad yn briodol ar gyfer y prosiect, a'i fod wedi'i ddylunio'n sensitif (o ystyried yr amrywiol leoliadau, cyfyngiadau gweithredol a pherthnasol eraill) i leihau niwed i'r dirwedd ac amwynder gweledol, dylid rhoi pwysau cyfyngedig ar welededd gorsaf gynhyrchu trydan nwy naturiol.

2.7 Sŵn a dirgryniad

Cyflwyniad

2.7.1 Ymdrinnir yn fanwl â gwybodaeth generig ar asesu effeithiau sŵn a dirgryniad yn Adran 5.12 EN-1. Yn ogystal, mae yna ystyriaethau penodol sy'n berthnasol i orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol fel y nodir isod. Gall ffynonellau sŵn a dirgryniad o orsafoedd cynhyrchu nwy naturiol gynnwys:

- y nwy a stêm
- y tyrbinau nwy a stêm sy'n gweithredu'n barhaus yn ystod gweithrediad arferol
- ffynonellau sŵn allanol fel cyddwysyddion wedi eu haer-oeri wedi'u lleoli'n allanol sy'n gweithredu'n barhaus yn ystod gweithrediad arferol

Asesiad yr ymgeisydd

2.7.2 Dylai'r ES gynnwys asesiad sŵn fel y disgrifir yn Adran 5.12 yn EN-1.

Lliniaru

2.7.3 Fel y disgrifir yn EN-1, y prif liniaru ar gyfer sŵn o orsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol yw trwy ddyluniad da, gan gynnwys amgáu gwaith a pheiriannau mewn adeiladau sy'n lleihau sŵn lle bynnag y bo modd ac i leihau'r potensial i weithrediadau greu sŵn. Dylid lliniaru sŵn o dyrbinau nwy trwy wanhau pibellau gwacáu er mwyn lleihau unrhyw risg o drosglwyddo sŵn amledd isel.

2.7.4 Efallai na ellir osgoi sŵn o'r cyfarpar y tu allan i'r prif waith. Gellir lliniaru hyn trwy ddewis offer yn ofalus.

Gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol

2.7.5 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr effeithiau sŵn yn unol ag Adran 5.12 yn EN-1. Dylid bod yn fodlon y bydd sŵn yn cael ei liniaru'n ddigonol trwy'r gofynion sydd ynghlwm wrth y caniatâd. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried i ba raddau y bydd sŵn gweithredol yn cael ei reoli ar wahân gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu CNC.

2.7.6 Ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu oni bai ei fod yn fodlon y bydd y cynigion yn cyflawni'r nodau a sefydlir ym mharagraff 5.12.10 yn EN-1.

2.8 Ansawdd ac adnoddau dŵr

Cyflwyniad

2.8.1 Nodir effeithiau cyffredinol ansawdd dŵr ac adnoddau yn Adran 5.16 EN-1. Bydd dyluniad systemau oeri dŵr ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan nwy naturiol yn cael effeithiau ychwanegol ar ansawdd dŵr, tynnu a gollwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gollwng dŵr ar dymheredd uwch na'r dŵr derbyn, gan effeithio ar fioamrywiaeth fflora a ffawna dyfrol
- gall defnydd o adnoddau leihau llif cyrsiau dŵr, gan effeithio ar y gyfradd y mae gwaddod yn cael ei ddyddodi, amodau ar gyfer fflora dyfrol ac o bosibl yn effeithio ar rywogaethau pysgod ymfudol (er enghraifft eog)
- 'ymyrraeth a / neu lusgiad pysgod' - h.y. cael eu cymryd i'r system oeri wrth dynnu
- gall triniaeth gemegol gwrth-halogi dŵr i'w ddefnyddio mewn systemau oeri, gall gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth ddyfrol

Asesiad yr ymgeisydd

2.8.2 Lle mae'r prosiect yn debygol o gael effeithiau ar ansawdd dŵr neu adnoddau dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad fel sy'n ofynnol yn Adran 5.16 EN-1. Dylai'r asesiad ddangos yn arbennig y bydd mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i osgoi neu leihau effeithiau andwyol tynnu a gollwng dŵr oeri.

Lliniaru

2.8.3 Yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a nodir yn EN-1, dylai dyluniad y system oeri gynnwys lleoliadau derbyn a gollwng sy'n osgoi neu'n lleihau effeithiau andwyol. Dylai fod mesurau penodol hefyd i leihau mewnlifiad a / neu ymlusgiad pysgod a gwres gormodol o ollyngiadau i ddyfroedd derbyn.

Gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol

2.8.4 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi arddangos mesurau i leihau effeithiau andwyol ar ansawdd ac adnoddau dŵr fel y disgrifir uchod ac yn EN-1.

3 Geirfa

Mae'r eirfa hon yn nodi'r termau a ddefnyddir amlaf yn yr NPS hwn. Mae geirfa ym mhob un o'r NPSs ynni. Efallai y bydd yr eirfa a nodir yn EN-1 hefyd yn ddefnyddiol wrth ddarllen yr NPS hwn.

AoS	Arfarniad o Gynaliadwyedd
Seilwaith cyswllt	Datblygiad sy'n gysylltiedig i'r NSIP fel y diffiniwyd yn Adran 115 y Ddeddf Gynllunio
BEIS	Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Biomass	Deunydd o darddiad biolegol diweddar sy'n deillio o ddeunydd planhigion neu anifeiliaid
CCGT	Tyrbin Nwy Cylch Cyfun
CCR	Parodrwydd i Ddal Carbon
CCS	Dal a Storio Carbon
CHP	Gwres a Phŵer Cyfunedig
Cyd-danio	Defnyddio dau fath o danwydd mewn gorsaf cynhyrchu thermol
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DfT	Yr Adran Drafnidiaeth
DR	Parodrwydd i Ddatgarboneiddio
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd
AEA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
EN-1	NPS Cyffredinol ar gyfer Ynni
EP	Trwydded Amgylcheddol a gyhoeddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd
DA	Datganiad Amgylcheddol
FGD	Gwasgariad Nwy Ffliw, techneg ar gyfer lleihau allyriadau o orsafoedd cynhyrchu tanwydd ffosil.
Effeithiau Generig	Effeithiau posibl unrhyw brosiectau seilwaith ynni, y polisi cyffredinol ar gyfer ystyriaeth a sefydlir yn Rhan 5 EN-1
Safle HRA	Un o'r safleoedd a sefydlir ym mharagraff 5.4.8 EN-1 ble bydd HRA yn asesu goblygiadau cynllun neu brosiect

MHCLG	Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
MMO	Sefydliad Rheoli Morol a sefydlwyd dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
MPS	Datganiad Polisi Morol
NDC	Cyfraniadau wedi'u Cadarnhau'n Genedlaethol
NOx	Nitrogen ocsidau
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
OCGT	Tyrbin Nwy Cylch Agored
SCR	Gostyngiad Catalytig Dewisol
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol (dan y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004)
Gorsaf Gynhyrchu Thermol	Gorsaf gynhyrchu trydan gorsaf sy'n defnyddio ffynhonnell wres (hylosgi tanwydd neu niwclear) i greu stêm sy'n gyrru tyrbin cynhyrchu neu sy'n defnyddio nwy yn uniongyrchol i yrru tyrbin cynhyrchu

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar: www.gov.uk/beis

Os ydych angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch enquiries@beis.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat ydych chi angen. Bydd yn ein helpu os byddwch yn nodi pa dechnoleg gynorthwyol ydych chi'n ei ddefnyddio.